Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Y.G.G. Pontardawe
Alltacham Drive
Pontardawe
Abertawe
SA8 4JX

31/10/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Hydref 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymraeg Pontardawe yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella medrau llafar Cymraeg disgyblion

- Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn a disgwyliadau uchel ar gyfer cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau llafar Cymraeg. Caiff ei gefnogi gan arweinwyr brwdfrydig sy'n hyrwyddo addysgeg effeithiol ymysg staff, sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol.
- Trwy gydweithio cyson o fewn a thu hwnt i'r ysgol a dysgu proffesiynol bwriadus, mae staff yn cynllunio ystod fuddiol o weithgareddau dysgu ac yn arddel y Gymraeg yn fedrus. Maent yn defnyddio ystod hynod effeithiol o ddulliau addysgu er mwyn cyflwyno a throchi'r disgyblion yn yr iaith yn llwyddiannus.
- Mae arweinwyr yn gweithredu prosesau hunanwerthuso sy'n adnabod effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion yn briodol. Yn gyffredinol, mae staff yn adnabod y cynnydd mae disgyblion yn ei wneud yn eu medrau llafar Cymraeg ac yn addasu'r ddarpariaeth yn fuddiol er mwyn diwallu anghenion grwpiau gwahanol o ddisgyblion.

- Mae'r amgylchedd dysgu ysgogol fel arddangosfeydd deniadol yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol ymysg disgyblion ac yn eu cymell i siarad Cymraeg gyda balchder. Trwy hyn, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu hyder i gyfathrebu'n gynyddol ddigymell mewn sefyllfaoedd ffurfiol a llai ffurfiol yn fuddiol.

## Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

- Mae arweinwyr wedi adnabod yr angen ar gyfer datblygu ymhellach gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau mathemateg ar draws y cwricwlwm.
- Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol fel cefnogaeth gan bartneriaid allanol a chyfleoedd i gydweithio ag ysgolion lleol. O ganlyniad, mae hyder athrawon i gynllunio gweithgareddau cyfoethog sy'n herio disgyblion yn bwrpasol wedi datblygu'n dda.
- Mae arweinwyr yn defnyddio ystod o ddulliau asesu cadarn i olrhain cynnydd disgyblion mewn mathemateg a rhifedd. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi athrawon i nodi unrhyw fylchau yn y dysgu ac i ddarparu profiadau ystyrlon sy'n diwallu anghenion disgyblion yn fanwl.
- Mae staff yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol sy'n cymell y dysgu yn llwyddiannus. Maent yn holi'r disgyblion yn effeithiol sy'n eu cefnogi i adalw dysgu blaenorol ac i fynd i'r afael â chamsyniadau mathemategol yn gynnar.
- Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd hynod effeithiol i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu ymwybyddiaeth gadarn o gysyniadau rhif cynnar.
- Mae cyfleoedd pwrpasol yn adeiladu ar y ddealltwriaeth hon ac yn datblygu medrau disgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus ac annibynnol ar draws y cwricwlwm.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6712218

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol